

Gwelliannau i Barth Cyhoeddus Rhuthun

Y Gronfa Ffyniant Bro

Adroddiad Ymgynghori - Crynodeb

Cynnwys

1.	Ymgynghori.....	3
2.	Canlyniadau arolwg	3
3.	Sgwâr Sant Pedr / Stryd y Farchnad	3
4.	Adborth o'r dull curo ar ddrysau.....	5
5.	Adborth o'r sesiynau galw heibio.....	6
5.1	Sgwâr Sant Pedr	6
5.2	Stryd y Farchnad.....	6
6.	Cae Ddol.....	7
6.1	Sylwadau pellach am Cae Ddol.....	8
7.	Adborth o'r sesiynau galw heibio.....	11
8.	Sylwadau'r bobl ifanc.....	12
9.	Sylwadau Ychwanegol.....	12
10.	Casgliad.....	13
11.	Argymhellion	15
11.1	Sgwâr Sant Pedr / Stryd y Farchnad.....	15
11.2	Cae Ddôl.....	16

1. Ymgynghori

Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â 750 o bobl drwy arolygon, sesiynau galw heibio, curo ar ddrysau a gweithdai. Daeth tua 120 o bobl i'r ddwy sesiwn galw heibio. Trefnwyd dau weithdy ysgol ac ymgysylltodd 70 - 80 o bobl ifanc rhwng 10-14 oed yng Nghlwb Ieuenctid Rhuthun.

2. Canlyniadau arolwg

Cawsom 400 o ymatebion i'r arolwg.

2.1 Pa un sy'n disgrifio orau eich perthynas â Rhuthun?

Roedd 377 o'r ymatebion i'r cwestiwn "Pa un sy'n disgrifio orau eich perthynas â Rhuthun?" gyda 329 ohonynt yn drigolion Rhuthun. Roedd 8% o gyfanswm yr ymatebion gan fusnesau yn Rhuthun.

Mae pobl yn ymweld â Rhuthun am resymau ymarferol – nwyddau a gwasanaethau hanfodol, a bwyta allan neu gymdeithasu yn dilyn yn agos. Mae mwy na hanner yr ymatebwyr yn teithio i Rhuthun mewn car, gyda mwy na thraean yn defnyddio parcio ar y stryd yn hytrach na meysydd parcio. 44% yn cerdded, gan ddangos pwysigrwydd yr ymgynghoriad i bobl leol a adlewyrchir yn y sylwadau ar parcio a cherdded.

3. Sgwâr Sant Pedr / Stryd y Farchnad

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu i raddau y byddai'r cynigion ar gyfer Sgwâr San Pedr yn ei gwneud yn:

- Mwy diogel i gerddwyr - 67.7%
- Haws mynediad drwy deithio llesol (beicio neu gerdded) - 62.3%
- Mwy deniadol i siopwyr ac ymwelwyr - 69.2%
- Mae cael gwared ar y gylchfan i greu mwy o le ar gyfer digwyddiadau yn dderbyniol - 64.72%

Dyweddodd canran sylweddol o ymatebwyr y byddai'r newidiadau arfaethedig yn eu gwneud yn fwy tebygol o:

- Fwyta allan neu gymdeithasu - 42.2%
- Treulio amser yn yr awyr agored - 41.7%
- Treulio amser gyda ffrindiau a theulu - 38.8%
- Prynu nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol -28.6%
- Prynu nwyddau a gwasanaethau hanfodol - 24.1%

3.1 Opsiynau Stryd y Farchnad

Opsiwn 1: dyluniad stryd anffurfiol gydag ardal letach i gerddwyr bob ochr i'r ffordd – roedd 69% o'r ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn yma.

Opsiwn 2: cadw llawer o elfennau'r cynllun ffordd presennol gyda lôn feics wrthliff – roedd 31% o'r ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn yma.

3.2 Effaith ymddangosiadol y cynigion ar gyfer Sgwâr Sant Pedr a Stryd y Farchnad

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn credu y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar eu dulliau teithio i ganol y dref ond roedd oddeutu traean yn credu na fyddai newid o gwbl o ran pa mor aml y byddan nhw'n cerdded (29%) neu'n gyrru nac o ran parcio ar y stryd (30%) neu mewn maes parcio (29%).

Mae'n bosib' y bydd y cynlluniau'n annog dulliau teithio llesol, gyda 43% o'r ymatebwyr yn dweud y byddan nhw'n cerdded yn amlach a 24% yn dweud y byddan nhw'n beicio'n amlach petai'r cynigion yn dwyn ffrwyth.

At hynny, ni fyddai 31% yn gyrru i ganol y dref mor aml ac ni fyddai 23% yn gyrru i'r dref a defnyddio meysydd parcio cyfagos mor aml.

3.3 Sylwadau pellach am Sgwâr San Pedr a Stryd y Farchnad

Parcio – pwnc emosiynol lle'r oedd y sylwadau yn amrywio o bryderon ynghylch colli manau parcio (a ffioedd uchel) a sylwadau eraill yn dweud nad yw'r cynlluniau arfaethedig yn mynd digon pell i leihau traffig yng nghanol y dref. Roedd yna lawer o sylwadau am y sefyllfa o ran parcio y tu allan i Costa Coffee.

Mynediad (ar gyfer cerbydau nad ydynt yn geir a phobl) – roedd nifer o ymatebwyr, er eu bod yn cydnabod y byddai lefelu'r ffyrdd a lleihau uchder y cyrbau yn beth da i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, yn credu y byddai cael gwared ar lefydd parcio ar y stryd yn ei gwneud hi'n anoddach iddyn nhw ymweld â chanol y dref. Roedd pryderon ynghylch mynediad i gerbydau mwy.

Busnesau– mae yna leiafrif lleisiol yn poeni y byddai siopwyr yn mynd i'r Wyddgrug yn lle Rhuthun, ac y byddai'r siop anifeiliaid anwes yn benodol yn cael ei heffeithio gan golli llefydd parcio ar y stryd.

Beicio – sylwadau ar ddiogelwch cerddwyr a beicwyr o ystyried nad yw'r lôn feics arfaethedig yn cysylltu ag isadeiledd beicio arall.

4. Adborth o'r dull curo ar ddrysau

Sylwadau Cadarnhaol

- Byddai'r cynlluniau ar gyfer Sgwâr San Pedr yn helpu'r dafarn
- Teimlai'r rhan fwyaf o bobl na fyddent yn cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig

Sylwadau Negyddol

- Mynediad i gadeiriau olwyn
- Parcio a llif traffig
- Amhariad posibl (i fusnesau) a achosir gan waith i weithredu'r cynlluniau
- Bysus yn sefyll gyferbyn â swyddfeydd y cyngor
- Llai o ymwelwyr gyda'r nod o wneud y lle yn fan i gerddwyr yn unig

- Mae'r newidiadau a ddaeth i rym yn ystod COVID wedi cael effaith negyddol ar fusnesau lleol

Awgrymiadau

- Gwneud yr ardal yn wyrdd

5. Adborth o'r sesiynau galw heibio

5.1 Sgwâr Sant Pedr

Sylwadau / Awgrymiadau

- Parcio i ddeiliaid bathodyn glas ar y sgwâr
- Ffordd i atal beicwyr modur rhag parcio mewn "man digwyddiadau"
- Dim angen cael gwared ar y gylchfan am resymau traffig; mae'n gweithio'n ddigon da ar hyn o bryd. Mae unrhyw fân broblemau achlysurol yn cael eu hachosi gan barcio anystyriol - problem gorfodi. Os ystyrir bod materion gweledol ac adloniant yn bwysicach, dylid cael gwared ar y man parcio hyll yn yr ardal ganolog o dwr y cloc i Swyddfa'r Post, a thirlunio'r ardal
- Dylid cael gwared ar y gylchfan er mwyn creu mwy o le i gerddwyr/llecynnau cymdeithasol
- Atal pob traffig o'r sgwâr ac eithrio trigolion, perchnogion, staff a defnyddwyr busnesau a cherbydau danfon, dylid cynnal archwiliad o arwyddion ar draws y dref

5.2 Stryd y Farchnad

Sylwadau / Awgrymiadau

- Stryd y Farchnad - mae pobl anabl yn aml yn parcio o flaen Costa ar hyn o bryd, beth fydd yn digwydd iddynt?
- A fydd cylchfan ger y maes parcio ar ddiwedd y system unffordd?

6. Cae Ddol

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ond roedd pryderon ynghylch cynnal a chadw yn y dyfodol a chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd gan bobl farn gref ar weld natur yn cael ei blaenoriaethu a lleihau perygl llifogydd, gan alluogi pobl i ddefnyddio'r parc drwy gydol y flwyddyn. Roedd nifer o sylwadau yn crybwyll toiledau a pharcio am ddim.

Mae'r ymatebwyr yn defnyddio'r parc rhwng unwaith yr wythnos a llai nag unwaith y mis:

Nid yw 75% o'r ymatebwyr yn beicio drwy'r parc o gwbl, nid yw 70% yn mynd â chi am dro yna, nid yw 50% yn defnyddio'r lle chwarae ac nid yw 80% yn defnyddio'r parc sglefrio*

(*mae hyn yn adlewyrchu grŵp oedran yr ymatebwyr o ran nad ydynt o few oedran defnyddio'r parc sglefrio)

Wrth ystyried y cynigion, byddai'r ymatebwyr yn croesawu:

- Mwy o lefydd eistedd a llochesi – 87% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau
- Lle chwarae antur – 87% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau
- Planhigion gwlypdir – 88% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau
- Man agored – 96% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau
- Trac Pwmpio – 65% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau
- Mynediad gwell at yr afon – 80% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau
- Gwella teithio lles – 78% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau

O ran defnydd yn y dyfodol, ymddengys nad oes llawer o awydd i ddefnyddio'r parc sglefrio:

Ni fyddai 45% yn defnyddio'r parc yn amlach nag y maent yn ei wneud rŵan ac nid oedd gan 45% unrhyw farn o gwbl

(fodd bynnag, dylid cofio nad yw'r ymatebwyr yn defnyddio'r parc sglefrio) nac yn teithio i'r gwaith neu gartref drwy'r parc – nid oedd gan 48% o'r ymatebwyr unrhyw farn ar y pwynt hwn. Yn gadarnhaol iawn, roedd 48% o'r ymatebwyr yn credu y

byddan nhw'n treulio mwy o amser yn yr awyr agored a 45% yn credu y byddan nhw'n treulio mwy o amser yn y parc gyda ffrindiau neu deulu.

6.1 Sylwadau pellach am Cae Ddol

Balans i ddefnyddwyr lluosog:

Sylwadau Cadarnhaol

- Croesawu gwelliannau i lwybrau er mwyn cynyddu hygyrchedd i bawb
- Bydd newid y maes chwarae ac ychwanegu trac pwmpio yn annog mwy o deuluoedd a phlant i fod yn egnïol a defnyddio'r parc

Sylwadau Negyddol

- Mae'n swnio fel maes chwarae mawr. Poblogaeth hŷn fawr yn y dref sydd eisiau mwynhau natur a thawelwch oddi wrth heidiau o bobl a sŵn
- Mae'r llwybr cerdded llesol braidd yn rhyfedd! Mae pobl yn dewis eu llwybr eu hunain drwy'r parc yn llawer tawelach ac yn rhoi defnydd llawn o'r parc, nid dim ond mewn ardaloedd dwys
- Byw drws nesaf i Gae Ddôl, yn bryderus y byddai'r llochesi, manau eistedd ac ati ychwanegol yn annog pobl ifanc i ymgasglu yno gyda'r nos ac yn hwyr yn y nos

Awgrymiadau

- Efallai y byddai parthau yn gweithio - cadw pethau plant swnllyd mewn un ardal, y llonyddwch a'r tawelwch oddi yno ychydig... ochr arall yr afon efallai
- Man agored i gŵn redeg o gwmpas a mwynhau'r afon yn y pen pellaf oddi wrth bopeth
- Mae angen cyflwyno unrhyw drac pwmpio ar y cyd â llwybrau / traciau cerdded
- Adleoli goliau pêl-droed os cyflwynir trac pwmpio

Cyfleusterau:

Sylwadau Cadarnhaol

- Caffi
- Mae gwella'r toiledau yn gynnig ardderchog ond dylent fod yn rhad ac am ddim, a dylid gwirio eu bod yn lân bob dydd

Sylwadau Negyddol

- Nid yw taliadau maes parcio tan 11pm yn denu pobl i ymweld gyda'r nos

Awgrymiadau

- Byddai caffi / ciosg yn annog pobl i ymweld
- Gellid prydlesu siop neu giosg i weithredwr preifat, a fyddai, unwaith eto, yn cynhyrchu arian i'r Cyngor
- Angen toiledau i deuluoedd eu defnyddio bob amser

Isadeiledd:

Sylwadau Cadarnhaol

- Croesewir mwy o lochesi

Sylwadau Negyddol

- Gall llochesi ddenu pobl annymunol gyda'r nos
- Ar hyn o bryd nid yw'n ddiogel i bobl ag anableddau ymweld oherwydd yr amodau

Awgrymiadau

- Dylai'r seddau picnic fod yn addas ar gyfer pobl ag anabledd (nid meinciau ynghlwm wrth fyrddau)
- Seddi yn agos i'r maes parcio i oedolion
- Meinciau ger y parc sglefrio a'r trac pwmpio arfaethedig
- Mae teithiau cerdded cylchol o amgylch yr ardaloedd hyn, sy'n hygyrch i bob defnyddiwr, hefyd yn hanfodol er mwyn galluogi teuluoedd ac unigolion i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored.

- Ni all newidiadau fod yn sefydlog a'u gadael i fynd yn hen. Bydd angen cynnal a chadw unrhyw welliannau a'u newid dros amser
- Llenwi'r tyllau ar lwybrau ac mewn meysydd parcio yn amlach
- Mae angen newid y bont ganol, mae'r dalennau metel yn rhydu drwodd, wedi sigo mewn mannau - sy'n gwneud iddo deimlo'n anniogel iawn
- Arwynebau addas ar gyfer cerdded yn ddiogel, cymhorthion symudedd a chadeiriau olwyn
- Cynnal a chadw nodweddion parc newydd a phresennol (coed, toiledau, pwll, trac pwmpio ac ati).
- Gwella'r sleid, siglenni (ar gyfer plant hŷn ac iau), campfa awyr agored
- Adnewyddu'r parc sglefrio
- Glanhau: yr afon, graffiti

Amgylcheddol:

Sylwadau Cadarnhaol

- Cyfle i wella'r cysylltiadau â thir y castell

Sylwadau Negyddol

- Mae rhwystr/ffensys agored wrth y pwll hwyaid yn beryglus i fabanod/plant bach
- Nid oes modd i lawer ddefnyddio'r parc oherwydd llifogydd
- Mae'r llwybr arfaethedig yn edrych yn fyr iawn
- Mae gan unrhyw gynnydd yn uchder rhwystrau ar draws y gorlifdir oblygiadau negyddol i eiddo sydd eisoes yn y gorlifdir
- Mae'n debyg y byddai'r risg o lifogydd yn cynyddu
- Byddai cael un bont yn unig yn syniad gwael ac yn achosi gormod o dagfeydd

Awgrymiadau

- Byddai planhigion ar y gwlyptir yn hanfodol.
- Bydd y llwybrau newydd yn golygu codi lefel y ddaear ar draws rhan o'r gorlifdir, atal llif y dŵr oddi wrth yr ardal, ac yn cynyddu'r risg o lifogydd i dai ar y gorlifdir.

- Carthu'r afon drwy'r ardal gyfan i sicrhau llif da parhaus o ddŵr drwy gydol y flwyddyn
- Deunydd priodol ar gyfer y llwybrau cerdded fel bod modd eu defnyddio o hyd mewn tywydd gwlyb
- Gallai llwybrau cerdded uwch i leihau cywasgiad y pridd wella'r ardal yn fawr a chynnig lle i adar gwyllt nythu a ffynnu yn y planhigion ar y gwlyptir, heb ormod o aflonyddwch
- Byddai'n dda gweld rhyw fath o gynefin i anifeiliaid gwyllt, pryfed a pheillwyr yn cael ei gyflwyno
- Dylai gwelliannau i'r parc ganolbwyntio'n llwyr ar wella bioamrywiaeth, ansawdd cyrsiau dŵr ac atal llifogydd, gan gynyddu trefoli rhediadau'r parc yn groes i'r amcanion hyn

7. Adborth o'r sesiynau galw heibio

Sylwadau Negyddol

- Yn ein barn ni, mae blaenoriaethu'r gwaith arfaethedig a ddisgrifir fel "gwelliannau byrdymor" yn anghywir ac yn groes i'ch Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol
- Dylai mesurau i sicrhau enillion net bioamrywiaeth a gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt gael blaenoriaeth dros gynyddu trefoli'r prif fannau gwyrdd yn y dref

Awgrymiadau

- Felodrom - pam na ddigwyddodd hyn?
- Mae angen tacluso'r ynys
- Llyn - mae ffynnon danddaearol yn y canol. A ellid ei throï'n ffynnon?
- Pam fod angen lledu'r bont yng Nghae Ddôl?

8. Sylwadau'r bobl ifanc

Mae rhai o sylwadau'r bobl ifanc yn eithaf ymarferol tra bod eraill yn fwy uchelgeisiol ac mae'r rhain wedi'u themâu isod.

Cyfleusterau yr hoffai pobl ifanc eu gweld yn y parc

- Gweithgareddau llawn hwyl: cae pêl-droed gyda 2 set o rwydi, trampolîn, wal ddringo, bowlio, weiren zip, siglen â theiar, cwrs golff bach, pwll nofio, wal ddringo creigiau, sw anifeiliaid anwes, bwrdd pŵl, saethyddiaeth, maes saethu, saethu colomennod clai, tennis bwrdd, sglefrio iâ, sglefrolio, rhaffau, trac beiciau, cwrs antur, marchogaeth, trampolîn, gwibgerti, beiciau a sgwteri i'w defnyddio, pyst gôl
- Hamdden/lle i ymgynnull (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau): meinciau/soffas/mannau eistedd, sinema awyr agored, ychwanegu caffi/cyfleuster lluniaeth
- Gweithgareddau creadigol: celf awyr agored, bwrdd celf

9. Sylwadau Ychwanegol

Mae Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cyffiniau yn croesawu, yn cefnogi ac o blaid holl brosiectau Ffyniant Bro'r dref a'r cyffiniau. Hoffent weld mwy o gynigion i arafu traffig yn Sgwâr Sant Pedr a'r cyffiniau; *“dylai'r cynlluniau ar gyfer Y Sgwâr fod yn fwy creadigol.”* Hoffent hefyd weld Stryd y Castell yn cael ei chynnwys yn y cynigion ac *“mae rhan uchaf Stryd y Ffynnon yn debygol o newid”* - hoffent gael mwy o fanylion am y datblygiad hwn. Ar Gae Ddôl, hoffent gael gofod digwyddiadau o fewn y parc, mwy o wybodaeth am y llwybr teithio llesol a'r cynlluniau ar gyfer offer y maes chwarae.

Roedd rhai o'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Rhuthun yn cynnwys *“Cefnogaeth gref i'r rheidwydd i gynnwys Stryd y Castell o fewn y prosiect, fel 'stryd anffurfiol' i'r safon arfaethedig ar gyfer Stryd y Farchnad.”*

Maen nhw'n ffafrio Opsiwn 1 ond heb y lôn feics goch bwrpasol.

Ar Gae Ddôl, hoffai'r Cyngor Tref gael ei gynnwys mewn ymgynghoriad pellach ar ddyluniad yr offer chwarae arfaethedig. Nodwyd y dylai fod gan y parc ddarpariaeth ar gyfer gofod digwyddiadau ac ar gyfer dolydd caru gwenyn.

10. Casgliad

Ymgysylltwyd yn dda iawn gyda phobl drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a threuliwyd llawer o amser yn cnocio ar ddrysau ac mewn sesiynau galw heibio gyda phobl yn dangos diddordeb yn y cynigion. Roedd hefyd yn amlwg o'r ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc bod ganddyn nhw hefyd ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yng Nghae Ddôl.

Mae yna gefnogaeth wirioneddol ar gyfer opsiwn 1 a'r cynigion i wella diogelwch ar Sgwâr Sant Pedr a Stryd y Farchnad a'u gwneud yn llefydd mwy deniadol i siopwyr ac ymwelwyr. Hefyd, nododd yr ymatebwyr y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n teithio i ganol y dref.

Ymgysylltwyd ag oddeutu 750 o bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd y digwyddiadau ymgynghori yn boblogaidd iawn ond, er gwaethaf rhaglen ymgysylltu eang, rydym ni'n amau mai'r grwpiau arferol o bobl a gymerodd ran h.y. unigolion dros 55 oed a busnesau gyda budd yn y cynigion.

Yn anuniongyrchol, mae'n debyg bod trafodaeth wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod ynghylch y cynlluniau gyda phobl sydd heb fynd i sesiwn alw heibio neu lenwi'r arolwg.

Cafwyd yr argraff nad oedd y plant yn defnyddio Cae Ddôl yn aml. Roedd rhai yn bryderus ynghylch plant yn eu harddegau yn defnyddio'r parc. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o ran a yw trac pwmpio a pharc sglefrio yn fwy perthnasol i bobl ifanc 13 oed a hŷn.

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg a'r dulliau ymgynghori eraill, mae angen mwy o wybodaeth ar y buddion a'r meddwl y tu ôl i gynigion Stryd y Farchnad a'r

gwelliannau i Sgwâr Sant Pedr. Wrth edrych yn ôl, gallasai'r cynlluniau a'r diagramau fod wedi darparu mwy o wybodaeth am y cynlluniau (os oedd rhai) ar gyfer Stryd-y-Ffynnon.

Tra bod y llais uchaf i'w glywed gan y rheiny sy'n gyrru, a adlewyrchir yn y sylwadau, dylid cofio bod 44% o'r ymatebwyr yn cerdded i ganol y dref, sy'n golygu bod y grŵp yma o bobl yr un mor bwysig. Ni chafwyd sylwadau ar dŵr y clod yn yr arolwg nac ychwaith yn ystod y gweithgareddau ymgysylltu ehangach.

Roedd y pryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig i ganol y dref yn canolbwyntio ar golli busnes, mynediad ar gyfer preswylwyr hŷn neu bobl anabl. Nid yw ychwanegu lôn feics yn boblogaidd, gydag ond 31% yn cefnogi'r cynigion hynny a llawer o sylwadau am ddiogelwch y cyfleuster a'r diffyg cysylltiad ag isadeileddau beicio eraill.

I fusnesau a phreswylwyr, mae'r Wyddgrug yn cael ei hystyried fel cystadleuaeth leol o ran mynd â phobl a gwariant o Ruthun oherwydd y trefniadau parcio gwell (a chostau is) ond ni cheir llawer o dystiolaeth y byddai hynny'n digwydd. Mae busnesau yn pryderu ynghylch mynediad i gerbydau danfon nwyddau a cholli llefydd parcio ar y stryd.

Roedd dau draean o'r bobl a siaradwyd gyda nhw yn dweud pethau cadarnhaol am y cynigion ar gyfer Cae Ddôl ac roedd llawer yn teimlo bod ganddyn nhw gysylltiad â'r parc.

Roedd llawer o bryderon ynghylch materion amgylcheddol a chynnal a chadw yn y parc, o berygl llifogydd i sicrhau bod y toiledau am ddim a gosod ciosg (ar gyfer diodydd neu luniaeth).

Wrth siarad gyda phobl ifanc am y parc, mae ganddyn nhw restr hir o'r pethau yr hoffan nhw eu gweld yno; ond mae yna hefyd bryderon ynghylch pa mor ddiogel y byddan nhw'n teimlo yno. Roedd y bobl ifanc wedi synnu ein bod ni wedi gofyn am eu barn nhw yn ystod y gweithdai i ysgolion a chlybiau ieuenctid.

Mae yna alw, ar draws pob grŵp, am fwy o seti dan do er mwyn gallu defnyddio'r parc ymhob tywydd ond ceir hefyd pryderon y byddai hyn yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol

Yn gryno, mae barn pobl yn amrywio ar draws y cynigion, a gobeithio y bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth ail-edrych ar y cynlluniau a gwneud newidiadau.

11. Argymhellion

Wrth ystyried beth sy'n digwydd nesaf, mae'r argymhellion yn amlinellu'r camau allweddol. Mae yna hefyd argymhellion i ymgysylltu eto yn ystod cam nesaf y cynigion a pharhau i weithio gyda phobl ifanc yn ogystal â chysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd nad ydyn nhw o bosib' wedi gwneud sylwadau hyd yma. Yn yr un modd, mae angen parhau i gyfathrebu, darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl sydd wedi ymgysylltu a chynnal y momentwm ar gyfer cynigion y cam nesaf.

Mae'r argymhellion a'r casgliadau yn adlewyrchu adborth preswylwyr, pryderon busnesau a'r wybodaeth mae canlyniadau'r arolwg wedi'i hamlygu. Maen nhw'n ymdrin ag elfennau uniongyrchol ble dylid ystyried y cynigion presennol a'r addasiadau a all fod eu hangen i'w datblygu, ac mae'r ail agwedd yn ymwneud â sut ymgynghorir ynghylch cynlluniau yn y dyfodol.

11.1 Sgwâr Sant Pedr / Stryd y Farchnad

Wrth lunio'r cynlluniau eto, mae'n rhaid i'r Cyngor egluro'r system unffordd arfaethedig ar Stryd y Ffynnon yn well. Mae mwy i'w wneud i werthu'r buddion a'r cyfleoedd a allai ddod yn sgil datblygu Sgwâr San Pedr.

Mae cefnogaeth wirioneddol ar gyfer opsiwn 1 mewn perthynas â Stryd y Farchnad. Hefyd, nododd yr ymatebwyr y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n teithio i ganol y dref.

Mae angen gwneud mwy o waith ar y goblygiadau ehangach ar y trefniadau teithio a pharcio. Mae angen ailystyried ychwanegu'r lôn feics a sicrhau mynediad i'r rhai ag anableddau.

11.2 Cae Ddôl

Yn Cae Ddôl mae pryderon bod llawer o agweddau newydd yn cael eu hystyried tra bod diffyg gwaith cynnal a chadw a phroblem llifogydd yn y parc. Golyga hyn nad yw'n cael ei ddefnyddio cymaint ag y gallai. Teimlwyd bod angen unioni'r agweddau hyn cyn ystyried newidiadau.